

# Hysbysiad Preifatrwydd – Ymarferion Ymgynghori Defra

## ***Pwy sy'n casglu fy nata personol?***

Y rheolwr data yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Gallwch gysylltu â Rheolwr Diogelu Data Defra drwy'r ebost yma: [data.protection@defra.gov.uk](mailto:data.protection@defra.gov.uk)

Dylai unrhyw gwestiynau am sut mae Defra'n defnyddio'ch data personol ac am eich hawliau perthynol gael eu hanfon at y cysylltwr uchod.

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, sy'n gyfrifol am fonitro a yw Defra yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, drwy'r ebost yma:

[DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk](mailto:DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk)

Mae Defra'n defnyddio [Citizen Space](#) i redeg eu hymarferion ymgynghori. Mae Citizen Space yn cael ei ddarparu gan [Delib Ltd \(Delib\)](#). I gael gwybodaeth am Delib, gan gynnwys sut y byddan nhw'n defnyddio data personol, cliciwch ar y ddolen yma: [https://www.delib.net/about\\_delib](https://www.delib.net/about_delib) a chliciwch ar y dolenni i'w Hysbysiad Preifatrwydd ar waelod y tudalen.

## ***Pam mae Defra'n defnyddio fy nata personol?***

Mae Defra'n defnyddio'ch data personol pan fydd yn ymgynghori â chi ac yn cael eich sylwadau a'ch barn ar ddeddfwriaeth neu bolisi arfaethedig ynglŷn â phwnc rydych chi wedi nodi ei fod o ddiddordeb i chi. Efallai y bydd Defra'n cysylltu â chi'n uniongyrchol i roi eich sylwadau a'ch barn mewn ymateb i ymarfer ymgynghori neu efallai y byddwch chi'n penderfynu ymateb i ymarfer ymgynghori rydych chi wedi'i weld ar GOV.UK neu rywle arall.

Os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, mae'n debyg y bydd eich data personol yn cynnwys eich enw a'ch manylion cysylltu a'r sylwadau a'r safbwyntiau y byddwch chi'n eu rhoi yn eich ateb. Bydd Defra'n defnyddio'ch data personol i gofnodi'ch sylwadau a'ch barn ac i gymryd eich ateb i ystyriaeth – gyda phob ateb arall cyn belled ag y bo modd – pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Mae Defra hefyd yn cael datgelu data personol wrth ymateb i geisiadau o dan y deddfau rhyddid gwybodaeth. Os hoffech roi gwybod i Defra yr hoffech i'r cyfan neu unrhyw ran o'ch ymateb i ymgynghoriad gael ei gadw'n gyfrinachol, dilynwch y weithdrefn a nodir yn yr adran 'Cyfrinachedd a gwybodaeth diogelu data' yn y llythyr sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad. Fel y sonnir yn yr adran honno, bydd Defra'n cymryd eich sylwadau i ofyn am gyfrinachedd i ystyriaeth cyn belled ag y bo modd, ond does dim modd rhoi gwarant absoliwt o gyfrinachedd. Mae'r adran 'Cyfrinachedd a gwybodaeth diogelu data' yn y llythyr sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

## ***Beth yw'r sail gyfreithiol yn y gyfraith diogelu data i Defra ddefnyddio fy nata personol?***

Mae dwy sail gyfreithiol yn y gyfraith diogelu data sy'n gymwys wrth i Defra ddefnyddio'ch data personol ar gyfer ymarferion ymgynghori:

- (1) eich cydsyniad chi; a
- (2) bod angen defnyddio (neu brosesu) eich data personol er mwyn cyflawni tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd.

Eich cydsyniad chi yw'r sail gyfreithiol gychwynnol ar gyfer defnyddio'ch data personol at ddibenion ymarferion ymgynghori. Os yw Defra wedi cysylltu â chi'n uniongyrchol i roi gwybod i chi am ymarfer ymgynghori, y rheswm am hynny yw eich bod wedi rhoi gwybod i Defra o'r blaen yr hoffech gael cysylltiadau ynglŷn â phwnc yr ymgynghoriad. P'un a gawsoch chi ymarfer ymgynghori yn uniongyrchol oddi wrth Defra neu mewn unrhyw ffordd arall, os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, byddwch yn gwneud hynny'n rhydd ac o'ch gwirfodd, a hynny ar ôl cael y cyfle i gael yr wybodaeth lawn o'r dogfennau ymgynghori.

Os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, y sail gyfreithiol i Defra ddefnyddio'ch data personol yn eich ateb yw bod angen ei ddefnyddio er mwyn cyflawni tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd. Y dasg berthnasol er budd y cyhoedd yw yr ymgynghorir â phobl a sefydliadau, yn enwedig y rhai y mae deddfwriaeth neu bolisi arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, ynglŷn â'r cynigion a'u bod yn cael cyfle i roi eu barn a'u sylwadau. Bydd Defra'n ystyried safbwyntiau a sylwadau sy'n dod i law mewn ymateb i ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

Os bydd Defra'n datgelu data personol wrth ymateb i gais o dan y deddfau rhyddid gwybodaeth, y sail gyfreithiol yw bod angen i Defra ddefnyddio'ch data personol er mwyn cyflawni tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd. Y dasg berthnasol er budd y cyhoedd yw bod rhaid i Defra gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y deddfau rhyddid gwybodaeth.

## ***Gyda phwy y bydd fy nata personol yn cael ei rannu?***

Bydd Defra'n cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion; fydd hyn ddim yn cynnwys unrhyw ddata personol.

O fewn Defra, bydd eich data personol a'r data sy'n eich adnabod ar gael i dimau sy'n gweithio ar yr ymgynghoriad. Byddai'r rhain yn cynnwys y canlynol: y tîm polisi a enwir yn y dogfennau ymgynghori, y Cydgysylltydd Ymgynghori a'r tîm sy'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar adegau, bydd Defra'n defnyddio contractwyr allanol i'w dadansoddi, a phan fo hyn yn wir, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd unrhyw gontractwr allanol yn dod o dan bolisi Defra ar ddiogelu data.

Fel darparwyr Citizen Space, bydd gan Delib hefyd fynediad at eich data personol. I gael manylion am sut mae Delib yn defnyddio'ch data personol, gweler eu [Hysbysiad Preifatrwydd](#) nhw.

### **Fydd fy nata personol i'n mynd y tu allan i'r Deyrnas Unedig?**

Bydd. Os byddwch yn anfon neu'n derbyn negeseuon ebost drwy wefan Citizen Space, gan gynnwys pan fyddwch yn defnyddio'r ffurflen 'Help/feedback', fe gaiff y rhain eu prosesu yn yr UE. Bydd unrhyw ddata personol yn y negeseuon ebost hyn yn dod o dan GDPR y DU a'r UE, sy'n diogelu'ch hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

Mae ymatebion i gwestiynau mewn ymarferion ymgynghori yn cael eu cadw yn y Deyrnas Unedig. Felly, os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, ni fydd dim data personol a ddarperir gennych yn yr ymateb hwnnw yn cael ei ddefnyddio gan Defra na Delib y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

### ***Os ydych chi'n dibynnu ar fy nghydsyniad i ddefnyddio fy nata personol, ga i dynnu fy nghydsyniad yn ôl?***

Mae gennych chi hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy ddefnyddio manylion cysylltu Defra sy'n cael eu rhoi yn y dogfennau ar gyfer unrhyw ymarfer ymgynghori penodol. Os byddwch yn tynnu'ch cydsyniad yn ôl, efallai y bydd Defra yn gallu parhau i ddefnyddio unrhyw ddata personol y maen nhw wedi'i gael eisoes hyd at yr amser hwnnw at ddibenion ymgynghoriadau rydych chi wedi ymateb iddyn nhw, yn enwedig os yw'ch ateb eisoes wedi'i gynnwys wrth ystyried y cynigion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad.

### ***Os byddaf yn ymateb i ymarfer ymgynghori, pa mor hir y bydd fy nata personol yn cael ei gadw?***

Bydd Defra'n cadw'ch data personol am hyd at ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

### ***Beth yw'r canlyniadau imi os na fyddaf yn darparu fy nata personol neu'n caniatáu iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion ymgynghoriadau?***

O'ch gwirfodd rydych chi'n cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ac ni fydd unrhyw ganlyniadau i chi os byddwch yn dewis peidio ag ymateb i ymgynghoriad neu os byddwch yn tynnu'ch ateb yn ôl unrhyw bryd.

### ***Beth yw fy hawliau i?***

Mae rhestr o'ch hawliau o dan y deddfau diogelu data ar gael yma:

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/>

### ***Sut mae cwyno?***

Mae gennych chi hawl i gyflwyno cwyn ynglŷn â defnyddio'ch data personol unrhyw bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO – yr awdurdod sy'n goruchwyllo diogelwch data). Os hoffech arfer yr hawl honno, mae'r manylion llawn ar gael yma:

<https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

### ***Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra***

Gweler hefyd Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol ac sy'n nodi'n fras sut mae Defra'n prosesu data personol:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>.